**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO**

**SUBJECT:** **PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO - DYDD IAU, 23 IONAWR 2020 DYDD IAU, 23 IONAWR 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: L. PARSONS (CADEIRYDD)

Councillors M. Cross
M. Day
H. McCarthy
M. Moore
J. C. Morgan
K. Pritchard
K. Rowson
B. Willis

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Edwards, J. Hill, J. Millard a M. Holland. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2019.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>CYTUNWYD i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU - 9 RHAGFYR 2019</u>**<br><br>Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2019, yn cynnwys:<br><br>**<u>Dalen Weithredu - 14 Tachwedd 2019 - Adolygiad Gwasanaeth Hamdden a Diwylliant</u>**<br><br>Mynegodd Aelod ei siom fod Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol wedi gwrthod y cais i ganiatáu i holl Aelodau Pwyllgorau Craffu gymryd rhan yn y drafodaeth yn ymwneud ag Adolygiad Gwasanaethau Hamdden a Diwylliant yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror 2020.<br><br>Nodwyd adeg y cyflwynwyd y cynnig gwreiddiol i sefydlu''r Ymddiriedolaeth Hamdden, yr agorwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Graffu i holl aelodau Pwyllgorau Craffu i drafod y cynnig (gyda dim ond yr Aelodau hynny a benodwyd i'r Pwyllgor yn cael caniatâd i bleidleisio ar y cynnig).<br><br>Aeth yr Aelod ymlaen drwy ddweud fod Gweithgor wedi gwneud cryn dipyn o waith dros y 12-18 mis diwethaf ar y mater a'i bod yn anffodus gan nad oedd holl aelodau'r Gweithgor yn aelodau o'r Pwyllgor Gwasanaethau Cymunedol na fyddent yn medru cymryd rhan na chael cyfle i roi adborth i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen newydd ar y gwaith a wnaed hyd yma.<br><br>Nodwyd fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi'n flaenorol nad oedd yr adolygiad o Gwasanaethau Hamdden yn cynnwys ymgyfraniad amserol ac ystyrlon gan Aelodau Pwyllgor Craffu.<br><br>Daeth yr Aelod i ben drwy ailadrodd ei siom y cafodd y cais am | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gydbwyllgor Craffu ei wrthod ac awgrymodd, hyd yn oed pe na wahoddid Aelodau'r Gweithgor gwreiddiol i'r Pwyllgor, fan leiaf oll y dylid gwahodd y Cadeirydd - y Cynghorydd P. Edwards - i fynychu'r cyfarfod hwnnw.<br>Awgrymodd y Swyddog Craffu y dylid gwneud cynnig i Gadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol h.y. y dylid gwahodd y Cynghorydd P. Edwards (Cadeirydd y Gweithgor) i gyfarfod Pwyllgor mis Chwefror i gymryd rhan yn y drafodaeth yng nghyswllt yr Adolygiad o'r Gwasanaethau Hamdden a Diwylliant.<br><br>Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y cafodd y gwaith a wnaed gan y Gweithgor ei gynnwys o fewn adroddiad terfynol yr Adolygiad o'r Gwasanaethau Hamdden a Diwylliant.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithredu. | |
| **No. 6** | **<u>PERFFORMIAD ABSENOLDEB SALWCH GWEITHLU ADFYWIO</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a'r Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad sy'n rhoi cyfle i Aelodau graffu a herio'r perfformiad absenoldeb salwch a'r camau gweithredu a gynigir ar gyfer gwella yn y gyfarwyddiaeth.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai hwn oedd yr adroddiad cyntaf fath i'w gyflwyno i'r Pwyllgor (byddai pob adran yn paratoi adroddiad tebyg i gael ei gyflwyno i'w pwyllgorau perthnasol) a chydnabuwyd fod yr adroddiad yn 'waith ar y gweill' gan fod angen gwneud gwaith pellach gyda chydweithwyr mewn Datblygu Sefydliadol i lunio a ffocysu'r adroddiad i sicrhau fod yr ystadegau a'r wybodaeth a gynhwysir ynddo yn cyfeirio at y Gwasanaeth Adfywio yn unig. Dywedwyd ar hyn o bryd fod yr wybodaeth yn cyfeirio at Gwasanaethau Cymunedol hefyd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn fanwl am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Tanlinellodd fod gan fwyafrif helaeth gweithwyr y Cyngor lefelau presenoldeb ardderchog gan y | |

dangosodd data fod 2463 o weithwyr wedi mynychu gwaith bob dydd yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Mawrth 2019 gyda'r Cyngor â lefel presenoldeb o 94.3%. Y meysydd gwasanaeth rheng flaen sy'n profi lefelau uwch o absenoldeb.

Fel Cyfarwyddiaeth, trafodir absenoliaeth salwch ym mhob cyfarfod rheoli misol. Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o'r deg absenoldeb uchaf sydd wedi cadarnhau fod rheolwyr yn cydymffurfio â ac yn gweithredu'r Polisi Rheoli Presenoldeb.

Aeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymlaen drwy ddweud er bod tystiolaeth o weithredu gan reolwyr wrth reoli salwch, bod y Gwasanaeth Adfywio yn cydnabod fod angen defnyddio system iTrent yn well gan mai dim ond 16.48% o gyfarfodydd dychwelyd i'r gwaith sy'n cael eu cofnodi ar system iTrent ar hyn o bryd. Nodwyd nad oes gan bob adran fynediad i'r system hon, yn neilltuol reolwyr rheng flaen ac er y cynhelir cyfarfodydd dychwelyd i'r gwaith, ni fedrir eu cofnodi bob amser o reidrwydd. Felly mae angen gwaith i wella'r sefyllfa.

Cafodd Aelodau wedyn gyfle i godi sylwadau/cwestiynau am yr adroddiad.

**Lefelau Presenoldeb -** cyfeiriodd Aelod at y ffaith fod gan fwyafrif helaeth gweithwyr y Cyngor lefelau presenoldeb gan fod y data yn dangos fod 2463 o weithwyr yn mynychu gwaith bob dydd a dywedodd fod hyn i'w ganmol. Gofynnodd os yw'r aelodau hyn o staff yn cael eu canmol am eu lefelau presenoldeb ardderchog.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol fod hwn yn bwynt dilys a chytunodd y dylai lefelau presenoldeb ardderchog gael eu dathlu a dywedodd y byddai'n codir mater yn y cyfarfod rheoli adrannol a hefyd gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol.

**Salwch Cronig -** mewn ymateb i gwestiwn am 'salwch cronig', cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y caiff hyn ei briodoli fel arfer i straen. Dywedwyd fod y Cyngor wrthi'n ymestyn hyfforddiant iechyd meddwl ar gyfer rheolwyr er mwyn eu galluogi'n well i gael trafodaethau priodol gydag unigolion. Nodwyd fod iechyd meddwl a straen yn broblem sylweddol ar draws pob sefydliad.

**System iTrent -** mynegwyd pryder nad oedd gan bob rheolwr fynediad i'r system er mwyn cofnodi gwybodaeth salwch a dywedodd fod angen trin hyn fel mater o frys.

**Cynnwys yr Adroddiad -** fe wnaeth Aelod ganmol a llongyfarch swyddogion ar yr adroddiad a dweud ei fod yn fanteisiol y cafwyd costiadau manwl.

Fodd bynnag, mynegwyd pryder gan nad oedd y graffiau wedi eu hargraffu mewn lliw, na fedrai Aelodau ddeall yr wybodaeth yn glir.

**Iechyd Meddwl -** cyfeiriodd Aelod at y nifer (46) o weithwyr oedd wedi colli dyddiau gwaith oherwydd salwch iechyd meddwl a gan fod gan y Cyngor ddyletswydd gofal i'w weithwyr, gofynnodd os oedd gweithdrefn yn ei lle drwy iechyd galwedigaethol i helpu staff sy'n dioddef gyda phroblemau straen a phryder.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y Cyngor wedi cynyddu ei raglen hyfforddiant yng nghyswllt iechyd meddwl ar gyfer ei reolwyr a bod yr hyfforddiant hefyd wedi tynnu sylw at 'sbardunau' posibl a fedrai arwain at absenoldeb o'r fath. Dywedodd fod y rhan fwyaf o staff sy'n dioddef gyda'r cyflwr eisiau mynychu gwaith a bod angen atgoffa cynghorwyr iechyd galwedigaethol am hyn. Mae angen i'r dull gweithredu a gymerir fod yn gydnaws ag anghenion busnes a hefyd yr unigolyn.

**Anafiadau Cyhyrysgerbydol a Iechyd Meddwl cysylltiedig â gwaith/heb fod yn gysylltiedig â gwaith:** gwnaed cais am gael gwybodaeth bellach yn y dyfodol yng nghyswllt anafiadau cyhyrysgerbydol a iechyd meddwl cysylltiedig â gwaith/heb fod yn gysylltiedig â gwaith.

**Strategaethau Rheoli Presenoldeb -** gofynnodd Aelod am wybodaeth bellach yng nghyswllt y strategaethau a weithredir er mwyn gostwng absenoldeb salwch.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n dilyn y mater.

Mewn pleidlais unfrydol,

CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod - i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod yr wybodaeth ar berfformiad salwch absenoldeb a'r trefniadau arfaethedig i wella cyfraddau presenoldeb o fewn y Gyfarwyddiaeth Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol wedi eu craffu ac y dynodwyd meysydd pellach ar gyfer gwella er mwyn symud ymlaen gyda gwelliannau perfformiad.

| | | |
|---|---|---|
| No. 7 | **STRATEGAETH TRAFNIDIAETH**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Adfywio.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Adfywio yr adroddiad dechreuol sy'n gofyn am farn Aelodau ar gynnwys a chwmpas y strategaeth trafnidiaeth arfaethedig ar gyfer Blaenau Gwent. Esboniodd y swyddog fod prosiectau pellach yng nghyswllt Metro Plus ar fin cael eu datblygu ac y byddai gwaith trafnidiaeth rhanbarthol gydag awdurdodau cyfagos yn dod i fwcl yn y dyfodol agor. Felly, roedd hwn yn amser addas i ddatblygu strategaeth leol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.<br><br>Wedyn siaradodd y Pennaeth Adfywio yn fanwl am y paragraffau dilynol yn yr adroddiad sy'n amlinellu:<br><br>**Paragraff 2.2 -** cwmpas y strategaeth a'r elfennau a ddylai gael eu cynnwys<br>**Paragraff 2.3 -** bod angen ystyried y prif argymhellion strategol o amgylch datblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y strategaeth sy'n ymrwymo i gynllunio hirdymor<br>**Paragraff 2.4 -** gwelliannau gweithredol a chyfleoedd newydd y gellid eu hymchwilio a'u defnyddio.<br><br>Nodwyd yr ymgynghorir hefyd â rhanddeiliaid perthnasol fel rhan o'r broses. Tanlinellodd y Pennaeth Adfywio y byddai'r strategaeth yn cyfeirio at gysylltedd ar gyfer trenau ond hefyd yn cynnwys bysus, tacsis a chludiant cymunedol - h.y. amrywio symudiadau cerbyd a'r meysydd/gwasanaethau sydd angen gwell mynediad e.e. mae angen cysylltiadau gyda Stadau Diwydiannol Rasa a Thafarnaubach, meddygfeydd teulu. Byddai'n rhaid hefyd gynnal trafodaethau gyda sefydliadau trydydd parti e.e. GAVO er mwyn llenwi unrhyw fylchau yn y rhwydwaith.<br><br>Daeth y Pennaeth Adfywio i ben drwy ofyn am i drafodaethau ganolbwyntio'n bennaf ar baragraff 2.2 h.y. cwmpas y strategaeth a'r elfennau y dylid eu cynnwys.<br><br>Wedyn, gwnaeth sylwadau fel sy'n dilyn:<br>➢ Pwysigrwydd cysylltiadau i gludo pobl i'r gwaith.<br>➢ Mae angen cysylltiadau trafnidiaeth i gartrefi pobl fel mater o frys gan fod pobl yn byw yn y gosodiadau gofal hynny'n teimlo'n ynysig. Soniwyd yn arbennig am Gartref Nyrsio Red Rose lle mae'r gwasanaeth bws agosaf y tu allan i'r ysbyty. | |

| | | |
|---|---|---|
| | ➢ Dylai darparu llwybrau bws fod yn flaenoriaeth,<br><br>Dywedodd y Pennaeth Adfywio nad yw llwybrau bws masnachol ar gael bob amser felly mae angen ymchwilio dulliau gwahanol o drafnidiaeth ac opsiynau, er enghraifft gwasanaeth 'bwcio bws' GAVO ar gyfer teithiau arbenigol nad ydynt o reidrwydd yn hyfyw yn fasnachol. Mae nifer o safleoedd digidol ar gael sy'n rhoi gwybodaeth ar y gwahanol fathau o gludiant sydd ar gael ond mae angen gwneud hyn yn haws i bobl ei ddefnyddio.<br><br>➢ Mynegodd Aelod ei bryder am agwedd ddigidol archebu wasanaeth a dywedodd nad oes gan rai pobl hŷn fynediad i gyfleusterau technoleg gwybodaeth nac yn eu defnyddio.<br><br>Awgrymodd Aelod arall y dylid gwneud ymholiadau gyda chwmnïau bws lleol i ofyn os allent newid eu llwybrau i gynnwys cartrefi gofal gan y dylai fod llwybrau bws uniongyrchol i'r cyfleusterau hyn.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Adfywio y byddai'n codi'r mater gyda'r Adran Trafnidiaeth.<br><br>➢ Dylid bod yn rhagweithiol er mwyn cael data gan gwmnïau cludiant sy'n derbyn cymhorthdal.<br><br>➢ Gan fod pobl ifanc yn dilyn prentisiaethau yn cael anhawster yn cyrraedd lleoliadau swydd, yn arbennig oherwydd mynediad a chost, gofynnwyd os oes system ar gael lle gallai pobl hŷn yn wirfoddol roi eu pas bws i berson ifanc sy'n dilyn prentisiaeth er mwyn rhoi cyfle iddynt gael mynediad i'w lleoliad.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Adfywio y gobeithiai y gellid annog y cynllun hwn. Caiff Stadau Diwydiannol Rasa a Thafarnaubach eu cyfrif fel 'Ardaloedd Gwella Busnes' a byddid yn edrych ar yr holl gynlluniau hyn i'w gwneud yn rhwyddach i bobl a phobl ifanc gyrraedd gwaith yn rhwyddach yn cynnwys 'bwcio bws' ar gyfer pobl sy'n gweithio shifftiau.<br><br>➢ Mynegodd Aelod ei bryder fod diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yn effeithio ar recriwtio (yn arbennig bobl ifanc) ar gyfer busnesau o fewn coridor Blaenau'r Cymoedd.<br><br>Aeth ymlaen drwy gyfeirio at yr adroddiad a gynhwysir ym | |

mhecyn gwybodaeth 'Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol Dinas Caerdydd' a'r gwaith a wneir fel rhan o'r trefniadau hyn a dywedodd, gan fod hyn yn cyfeirio at y Strategaeth Trafnidiaeth, y dylid bod wedi darparu crynodeb o'r adroddiad i Aelodau.

Mynegodd ei bryder fod yr adroddiad gwybodaeth yn cyfleu mai'r prif brosiect oedd cangen Abertyleri ar gyfer y rheilffordd. Fodd bynnag, dylid bod wedi darparu cynllun cynhwysfawr ar gyfer y Bwrdeistref Sirol i gyd a ddylai gynnwys darpariaeth rheilffordd ysgol o Lanhiledd i Frynmawr, cysylltiadau o fewn y Fwrdeistref Sirol o'r dwyrain i'r gorllewin a'r gorllewin i'r dwyrain. Hefyd cysylltiadau i ac o'r Fenni i Hirwaun a chludiant ac o'r stadau diwydiannol. Daeth yr Aelod i ben drwy awgrymu sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gynnal darn o waith yng nghyswllt y ddarpariaeth trafnidiaeth gan bod nifer fawr o syniadau y medrid dod â nhw ynghyd gyda gwybodaeth leol Aelodau.

Dywedodd y Cadeirydd fod cyfarfod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Canol Trefi ar fin cychwyn ac y gellid cynnwys pwnc trafnidiaeth fel rhan o'r agenda. Fodd bynnag, os teimlir yn dilyn hynny fod angen Grŵp Gorchwyl a Gorffen unigol yng nghyswllt trafnidiaeth, y rhoddir adroddiad hyn i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Dywedodd y Pennaeth Adfywio fod yr adroddiad yn yr wybodaeth yn grynodeb o gyfarfodydd yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol a gynhaliwyd .

- Wrth baratoi'r Strategaeth Trafnidiaeth Leol, dywedodd Aelod y dylai swyddogion roi ystyriaeth i'r gwaith a phrosiectau y mae awdurdodau lleol yn ei ddilyn yn ogystal â gofynion y Fwrdeistref Sirol .
- Ail-agorwyd Rheilffordd Cwm Ebwy yn 2008 a bryd hynny y bwriad oedd y byddai rheilffordd Abertyleri i Gasnewydd. Fodd bynnag, gan fod amser wedi symud ymlaen, gofynnodd Aelod os byddai hynny'n gwneud mwy o niwed nag o les i'r dref. Holodd os yw swyddogion wedi edrych ar y canlyniadau pe byddid yn darparu Cangen Abertyleri?

Dywedodd y Pennaeth Adfywio y bydd arbenigwyr yn paratoi adroddiad a fyddai'n asesu elfennau tebyg i agweddau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol y cynllun.

Yng nghyswllt Abertyleri mae angen gwneud y dref yn lle bywiog lle mae pobl eisiau byw ynddi ac annog pobl i ddefnyddio rhenti is y tu allan i Gaerdydd a hefyd i ddenu busnesau.

- Awgrymodd Aelod y dylid gwneud mwy o waith i hyrwyddo'r ardal ac awgrymodd y gallai swyddogion twristiaeth ddarparu taflenni yng Ngorsaf Ganolog Caerdydd er mwyn hyrwyddo manteision Blaenau Gwent. Awgrymwyd hefyd y dylai man gwybodaeth i ymwelwyr fod ar fan uchaf Blaenau'r Cymoedd ac ym Mharc Bryn Bach, gan mai dyna'r lleoliad agosaf at Ffordd Blaenau'r Cymoedd.

- Dywedodd Aelod y ailgyflwyno'r rheilffordd yn llwyddiannus iawn ac wedi rhagori ar bob disgwyliad. Fodd bynnag, mynegodd ei bryder am oblygiadau cost darparu milltir ychwanegol o drac rheilffordd i Abertyleri a gobeithiai na fyddai hyn yn niweidiol i'r strategaeth gyffredinol - felly mae angen edrych ar y darlun mwy.

  Aeth ymlaen drwy gyfeirio at adfywio canol tref Tredegar ac y cafodd ei phroffil ei godi gan ymweliad Gweinidog y diwrnod hwnnw i'r dref ac yn neilltuol i'r Ganolfan TA. Canmolodd y swyddogion sy'n ymwneud â'r prosiectau adfywio a gofynnodd i'r swyddogion drosglwyddo llon gyrchiadau a gwerthfawrogiad i Nick Landers a'i dîm am y gwaith a wnaed.

- Mynegwyd pryder nad oedd cysylltiad trafnidiaeth o fewn cwm Tredegar a gofynnodd os gellid gwneud gwaith ar y cyd gyda Chyngor Caerffili i roi cysylltiad rheilffordd i Barc Bryn Bach.

- Awgrymwyd cynnal ymchwiliadau i p'un a allai pobl sydd â chardiau teithio rhatach hefyd fanteisio o ddulliau eraill o gludiant tebyg i dacsis.

Dywedodd y Pennaeth Adfywio fod Trafnidiaeth Cymru yn cyflwyno system ddigidol ar gyfer tocynnau a ddylai ei gwneud yn haws i gynllunio teithiau.

- Cyfeiriwyd at yr hen dri twnnel sy'n cysylltu Sirhywi gyda Glynebwy a bod un mynedfa twnnel tu ôl i'r maes parcio yn safle'r Gweithfeydd ac awgrymodd y dylid hanes ac

| | | |
|---|---|---|
| | arteffactau gael eu cynnwys fel rhan o'r strategaeth.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod trafnidiaeth yn bwnc pwysig yn genedlaethol ar hyn o bryd ac mai un o'r rhesymau pam fod angen y strategaeth hon oedd fel y gallai'r Cyngor wneud cais am gyllid i ddarparu cysylltedd fforddiadwy a lleol ledled y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, y dylai'r adroddiad gael ei dderbyn a chymeradwyo Opsiwn 1, sef dechrau ar y Strategaeth Trafnidiaeth Leol yn 2020 yn dilyn cyhoeddi'r cyfeiriad ar gyfer teithio rheilffordd lleol a'i glymu gyda Strategaeth Trafnidiaeth Cymru a Strategaeth Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y dyfodol. | |
| **No. 8** | **<u>CYMOEDD TECHNOLEG</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol i gael ei ystyried.<br><br>Hysbyswyd Aelodau bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r rhaglen Cymoedd Technoleg yn haf 2017 a bod hwn yn ymrwymiad £100 miliwn gan Lywodraeth Cymru dros ddeng mlynedd i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy gyda ffocws ar Flaenau Gwent a'r gefnwlad. Yn 2017 byddai Cymoedd De Cymru a Blaenau Gwent yn neilltuol yn ganolfan a gydnabyddir yn fyd-eang ar gyfer datblygu technolegau newydd i gefnogi diwydiant o'r math diweddaraf.<br><br>Fel rhan o'r adolygiad ehangach o lywodraethiant y rhaglen Parth Menter yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu dirwyn Bwrdd Parth Menter Glynebwy i ben ac yng nghyswllt Blaenau Gwent wedi cyflwyno Grŵp Ymgynghori Cymoedd Technoleg - a chaiff ei rôl ei amlinellu ym mharagraff 2.3 yr adroddiad.<br><br>Wedyn rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fanylion y prosiectau yn gyfanswm o tua £18.5m a gynhwyswyd fel rhan o'r rhaglen (a amlinellwyd ym mharagraff 2.6 yr adroddiad) ac yn ychwanegol, fanylion dau achos busnes arall a amlinellir ym mharagraff 2.7. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ar y pwynt hwn, gwnaeth Aelodau y sylwadau dilynol:<br><br>➢ Roedd yn ddymunol cael manylion yr holl syniadau arfaethedig a dywedwyd fod mewnfuddsoddiad yn hanfodol i'r awdurdod lwyddo a gwella canfyddiad pobl a gobeithid y byddai hyn yn dod i ffrwyth.<br><br>➢ Diwydiant mewn Ysgolion (STEM) - gobeithir y gellid ymestyn y prosiect peilot hwn i bob ysgol er mwyn rhoi cyfle cyfartal a darpariaeth i'r holl ddisgyblion yn y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod Cyfarwyddwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi siarad yn faith mewn cyfarfod diweddar am STEM ac yr anfonwyd gwahoddiad i ysgolion ym mhob awdurdod i ysgolion fynd i hyfforddiant STEM Sandhurst ond na chafwyd unrhyw ymatebion cadarnhaol o Flaenau Gwent. Cafodd hyn ei drafod gyda'r Pwyllgor Gweithredol.<br><br>Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod angen cynnal peilot yn y lle cyntaf ar gyfer y cynnig gwreiddiol a gyflwynwyd, ac yn ddilynol y caiff hyn ei ymestyn i bob ysgol ledled y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi gwaith y Rhaglen Cymoedd Technoleg. | |
| **No. 9** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH - 5 MAWRTH 2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r Flaenraglen Gwaith ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ar 5 Mawrth 2020.<br><br>Hysbyswyd Aelodau y cafodd yr Eitem Gwybodaeth - 'Monitro Blynyddol ar y Cynllun Busnes Adfywio' ei thynnu.<br><br>Cyflwynir yr eitemau dilynol i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill:<br><br>➢ Adroddiad Rheoli Cyrchfan. | |

| | | |
|---|---|---|
| | ➢ Adroddiad yn cyfeirio at sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cyfeirio at Drafnidiaeth Gyhoeddus.<br><br>Rhoddir diweddariad ddwywaith y flwyddyn yng nghyswllt:<br><br>➢ Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.<br><br>Caiff Sesiynau Gwybodaeth i Aelodau eu cynnull yng nghyswllt:<br><br>➢ Cymoedd Technoleg.<br>➢ Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn ac y cyflwynir yr eitemau dilynol i'r cyfarfod a drefnir ar gyfer 5 Mawrth 2020:<br><br>➢ Adolygu Polisi Gwaredu Rheoli Asedau<br>➢ Diweddariad ar Gyllid Adfywio wedi'i Dargedu<br>➢ Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau<br>➢ Cyllido Tyrfa. | |